Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

Special Educational Needs Tribunal for Wales

Ffurflen Presenoldeb Mewn Tribiwnlys

Canllaw i Awdurdodau Lleol a Chyrff Cyfrifol

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.

Dewis iaith

Mae'r tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y canllaw hwn yn ofalus cyn llenwi'r ffurflen amgaeedig a'i hanfon yn ôl. Mae'n rhaid i chi ddweud wrthon ni pwy sy'n dod i'r gwrandawiad. Os nad ydych chi'n llenwi'r ffurflen a'i hanfon yn ôl erbyn y dyddiad rydym yn gofyn amdani, efallai na fydd eich cynrychiolwyr a'ch tystion yn gallu dod i'r gwrandawiad. Os ydych chi'n anfon y ffurflen hon yn ôl, a hithau ddim yn gyflawn, mae'n bosibl na fydd rywun rydych chi heb ei enwi yn gallu dod i'r gwrandawiad.

Os oes angen rhagor o amser arnoch chi i roi'r wybodaeth hon i ni, mae'n rhaid i chi ysgrifennu atom i ddweud pam. Efallai y byddwn ni'n gallu rhoi ychydig bach mwy o amser i chi.

Cyfeiriad:
TAAAC
Adeiladau'r Llywodraeth
Spa Road East
Llandrindod
Powys, LD1 5HA
E-bost: E-bost:

Gwefan: SENTW

Llinell Gymorth: 01597 829800

Adran 1 – Cynrychiolydd Awdurdod Lleol neu Gorff Cyfrifol

Rhowch enw cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol neu'r Corff Cyfrifol a'r manylion eraill rydym yn gofyn amdanynt. Gall eich cynrychiolydd ddewis siarad Cymraeg neu Saesneg. Rhowch wybod i ni pa iaith rydych am ei defnyddio.

Adran 2 – Cynrychiolydd Arall

Caiff yr Awdurdod Lleol a'r Corff Cyfrifol fod yn bresennol a dod â chynrychiolydd gyda nhw, boed hwnnw'n gyfreithiol gymwys ai peidio. Gall eich cynrychiolydd ddewis siarad Cymraeg neu Saesneg. Rhowch wybod i ni pa iaith y mae ef/hi am ei defnyddio.

Adran 3 - Eiriolwr

Os ydych chi am i rywun ddod gyda chi i'r gwrandawiad i gyfleu dymuniadau a barn y plentyn, rhowch ei fanylion.

Adran 4 - Tystion

Rhowch enw a chyfeiriad y tystion a fydd yn dod gyda chi i'r gwrandawiad. Chi sy'n gyfrifol am ymgynghori â'ch tystion cyn pennu dyddiad. Chi sydd hefyd yn gyfrifol am wneud yn siŵr fod eich tystion yn gwybod pa bryd y bydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal, a'u bod yn mynd i'r gwrandawiad.

Fel arfer, caiff yr Awdurdod Lleol ddod â hyd at ddau dyst. Os hoffech chi ddod â mwy na dau gyda chi, dylech ysgrifennu atom i ddweud wrthon ni pam cyn gynted â phosibl. Gallwch hefyd ofyn i'r cadeirydd yn y gwrandawiad. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd y llywydd (neu'r cadeirydd ar y diwrnod) yn rhoi caniatâd ymlaen llaw. Os nad ydy'ch tyst ar gael, caiff y tribiwnlys wrando ar yr apêl o hyd.

Gall eich tystion ddewis siarad Cymraeg neu Saesneg. Rhowch wybod i ni pa iaith y maen nhw am ei defnyddio.

Adran 5 – Sylwedydd

Os ydych chi'n awyddus i rywun ddod gyda chi sydd heb gael ei enwi fel tyst ac na fydd yn cymryd rhan yn y gwrandawiad, rhowch eu manylion. Dim ond un person rydych chi'n gallu ei enwi. Mae'r llywydd yn gallu penderfynu na chaiff rywun rydych chi wedi'i enwi ddod i'r gwrandawiad.

Adran 6 - Cyfieithydd neu Arwyddwr

Bydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal yn Gymraeg neu yn Saesneg ond, os nad y Gymraeg neu'r Saesneg yw eich mamiaith, rydyn ni'n gallu trefnu i gyfieithydd fod yno. Os oes angen arwyddwr arnoch, byddwn yn trefnu hyn hefyd. Byddwn yn talu am gyfieithwyr ac arwyddwyr. Os dydych chi ddim wedi gofyn am gyfieithydd neu arwyddwr yn barod, dywedwch wrthon ni, gan gofio dweud pa iaith y mae arnoch ei hangen.

Adran 7 – Anghenion eraill

Os oes gennych chi, neu rywun sy'n dod gyda chi i'r gwrandawiad, anabledd, neu anghenion eraill a allai effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawiad, dywedwch wrthon ni.